

**COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A
CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWDYD YN YR
YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE
COLWYN, NOS FAWRTH, 15^{FED} RHAGFYR 2015 AM 6.00 P.M.**

YN BRESENNOL: Cynghorydd N. Bastow (Cadeirydd)
Cynghorwyr W Bagnall, Mrs G. Baker, Mrs L. Griffiths, Mrs
M. Jones, J. Pearson (Warden Coed), C. Wood, S. Williams

SWYDDOG: Mrs C J Earley, Clerc y Dref
Bill Beattie a Chloe Shilton, Myfyrwyr Ymgynghorol

261/15 Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd R.
Foreman a'r Maer, Cynghorydd Mrs S. Roy.

262/15 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol
a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd
dim.

263/15 Cofnodion:

*Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar
24^{ain} Tachwedd 2015 a'u llofnodi i fod yn adroddiad cywir.*

264/15 Materion yn Codi o Gofnodion Blaenorol:

a. Cofnod 166/15 -Promenâd Llandrillo yn Rhos:

Cyflwynodd y Clerc ymateb Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) yn
rhoi manylion o'r opsiynau oedd yn cael eu hystyried i ledu / gwella'r
llwybr troed a'r llwybr beicio..

*Penderfynwyd ysgrifennu at GBSC i argymhell bod parcio yn cael ei
wahardd dros dro ar ochr ddeheuol y ffordd er mwyn ymdrin â'r perygl
presennol i gerddwyr (Fortes i Rhos Fynach) hyd nes y gellir cynnal y
gwelliannau i'r llwybrau troed / beicio.*

b. Cofnod 239/15(b) – Cynnig Halen Craig gan GBSC:

Cyflwynodd y Clerc mapiau o'r llwybrau teithio graeanu er gwybodaeth.

c. Cofnod 239/15(d) - Cronfa'r Offer Chwarae:

Rhoddodd y Clerc adroddiad am yr ymweliad diweddar i Faes Chwarae
Pwll Ymdrochi Rhos a dywedodd wrth y Pwyllgor bod y Cynghorydd
Roger Parry wedi cadarnhau ar lafar bod y swm o £5,400 ar gael o Arian
Adran 106 (ar gyfer ardal Llandrillo yn Rhos) tuag at y prosiect. Bydd

angen cyfraniad felly o oddeutu £7,500 allan o gronfa'r Cyngor Tref am 2015/16 (£12,500) tuag at brynu a gosod trogylch newydd sy'n cyd-fynd â gofynion DDA a gwaith tir sy'n gysylltiedig (i gynnwys ardal o 2m o amgylch y trogylch a llwybr at y giât.).

Penderfynwyd cytuno mewn egwyddor i'r balans o hyd at £7,500 ddod allan o gronfa offer chwarae'r Cyngor Tref 2015/16 er mwyn i'r prosiect cael mynd ymlaen.

ch. Cofnod 240/15 – Traffordd yr A55:

Oherwydd ymddiheuriadau am absenoldeb y Cynghorydd Mrs Sibani Roy, fe ohiriwyd yr eitem hon tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

265/15 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol oddi wrth GBSC i'w ystyried:

a. Adroddiad am y newidiadau arfaethedig i'r polisïau ag ymarferiadau ar gyfer gorfodaeth parcio

Nodwyd yr adroddiad

b. Cyfarfod Bwrdd Byw yn y Bae - Adolygiad o'r Prif Gynllun:

Rhoddodd y Clerc diweddariad byr ar lafar yn cadarnhau bydd yna 3 opsiwn gydag amryw o is-opsiynau yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Tref cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus (disgwyllir yn Ionawr). Cynhelir cyfarfod arbennig ar 4^{ydd} Ionawr i gael cyflwyniad llawn gan Mr Rob Dix.

c. Cofnodion diweddar Grŵp Ymgynghorol Promenâd Bae Colwyn:

Cafwyd trafodaeth fer am y bwriad i ailddatblygu Rhos Point a'r potensial am argae llanw.

266/15 Bwydo Adar:

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cynnig gan y Cynghorydd Griffiths, bod cynrychiolydd o'r RSPB yn cael gwahoddiad i ddod i annerch cyfarfod yn y dyfodol am fwydo adar mewn dull cyfrifol ac i gyflwyno deunydd a fyddai'n addas i'w arddangos yn gyhoeddus.

Cafwyd trafodaeth fer, a'r aelodau yn gofyn a oedd hynny rhan o ddyletswyddau'r Cyngor Tref.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth gan y Cynghorydd Griffiths a gadael i'r RSPB rhoi'r wybodaeth i'r cyhoedd am fwydo adar mewn dull cyfrifol..

267/15 Un Llais Cymru (ULIC):

Cyflwynodd y Clerc er gwybodaeth, adroddiad gan y Cynghorydd Mike Harriman, cynrychiolydd ULIC ar Grŵp Cyfeirio Rhandeiliaid Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

Penderfynwyd nodi'r adroddiad..

268/15 Gohebiaeth Arall:

Fe nodwyd bod yr eitemau canlynol o ohebiaeth ar gael gan y Clerc ar gais:

- a Taflen Newyddion Rhagfyr 2015 Tramffordd Llandudno a Bae Colwyn.
- b. Cofnodion cyfarfod Cymdeithas Trigolion Hen Golwyn (y Dwyrain) a gynhaliwyd ar 9^{fed} Rhagfyr ynghyd a llythyr parthed Goleuadau'r Nadolig. Croesawyd yr adborth cadarnhaol am Oleuadau'r Nadolig yn Hen Golwyn gan y Pwyllgor a byddant yn cael eu cyflwyno i Is-Bwyllgor Goleuadau'r Nadolig yn y man.

269/15 Cynllunio:

- a. Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd gan GBSC i'w ystyried.

Penderfynwyd cyflwyno sylwadau ar y ceisiadau hyn fel y maent yn ymddangos yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.

- b. *Penderfynwyd derbyn a nodi'r copi o Benderfyniadau Cynllunio a roddwyd gan GBSC am y cyfnod 9/11/15 hyd at 6/12/15.*

270/15 Ceisiadau am Drwyddedau:

Cyflwynodd y Clerc manylion am nifer o geisiadau am drwyddedau a gofnodwyd gan GBSC am y cyfnod 16/11/15 hyd at 4/12/15 er gwybodaeth.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r ceisiadau am drwyddedau.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.35 pm

..... Cadeirydd